Disgrifiad Swydd

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd	Arolygydd Prosiect				
Gradd	6	**Rhif Gwerthuso'r Swydd:**	2081c	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	14/10/2026

Gwasanaeth	Seilwaith				
Tîm Gwasanaeth	Asedau a Chynllunio				
Yn Atebol i	Uwch Swyddog Traffig, Trafnidiaeth a Datblygu				
Meysydd Cyfrifoldeb	Draenio Gwelliannau i'r Briffordd Cynlluniau Datblygu Priffyrdd				
Nifer y staff dan ofal deiliad y swydd	Dim	**Cyfyngiadau Gwleidyddol** *(Cyfeiriwch at yr adran amodau arbennig)*	Nac oes	**Angen Gwiriad Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**	Nac oes
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w llenwi gan reolwr yn unig wrth greu swydd newydd neu ddiwygio rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Mae'r Arolygydd Prosiect yn monitro ac yn cofnodi gweithgarwch contractwyr ar y safle i gefnogi darpariaeth ddiogel, amserol ac o ansawdd uchel cynlluniau draenio, peirianneg trefol a phriffyrdd. Mae'r rôl yn cynnwys cynnal archwiliadau ac arolygon safle, cefnogi gweithdrefnau cyn ac ar ôl contract, a chynorthwyo gydag asesiadau risg a gwiriadau cyflwr. Drwy roi gwybod yn gywir am gynnydd a nodi diffygion, mae deiliad y swydd yn helpu i gynnal safonau adeiladu, rheoli risgiau, a sicrhau bod priffyrdd a seilwaith draenio yn cael eu cyflawni fel y'u dyluniwyd ac sy'n addas i'w ddefnyddio yn y tymor hir.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

1. Archwilio a monitro cynnydd gwaith contractwyr ar gynlluniau draenio, cynlluniau gwella priffyrdd, cynlluniau datblygu priffyrdd a chynlluniau peirianneg trefol. Hefyd sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â'r fanyleb ddylunio a'r datganiadau dull contractwr.

2. Cynnal archwiliad o briffyrdd a chynlluniau draenio, gan gynnwys draenio cynaliadwy, cynnal cofnodion o gynnydd contractwyr a chrefftwaith o ddydd i ddydd gan ddefnyddio ffurflenni safonol, ffotograffau, atodlenni, ac ati.

3. Sicrhau bod y Swyddog Rheoli Datblygu (DCO) yn cael gwybod am ddiffygion mewn deunyddiau a chrefftwaith yn unol â gweithdrefnau contract safonol.

4. Cynnal archwiliadau/arolygon mesuredig ar gyfer cynlluniau draenio, priffyrdd a pheirianneg trefol.

5. Monitro cynlluniau rheoli traffig ar ddatblygiadau gan sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gyfredol, adolygu cynlluniau/cynigion TM, gan roi cyngor i unioni safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio.

6. Cymryd a chofnodi canfyddiadau samplu deunyddiau priffyrdd ac adeiladu.

7. Cynorthwyo i gyflawni rhwymedigaethau statudol y Cyngor mewn perthynas â Deddf Priffyrdd 1980, Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, Deddf Draenio Tir 1991, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Safonau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer SuDS.

8. Ymchwilio i broblemau penodol yr adroddwyd amdanynt ym maes gwasanaeth diffygion draenio/priffyrdd ac adrodd ar ganfyddiadau.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad pan gafodd ei baratoi. Gall dyletswyddau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid nodweddion cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae amrywiadau o'r fath yn beth cyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Meddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn Rheoli Traffig M7 neu'n barod i weithio tuag at gyflawni o fewn 3-6 mis o gael eich penodi. • Meddu ar gymhwyster cydnabyddedig mewn archwilio Priffyrdd neu'n barod i ymgymryd ag ef.	• Deiliad cerdyn CSCS • Tocyn Goruchwyliwr Gwaith Stryd NRSWA.
Gwybodaeth	• Gwybodaeth ymarferol a gallu mewn peirianneg ac arferion safle adeiladu. • Gwybodaeth am ddeunyddiau a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau draenio, adeiladu priffyrdd a chynlluniau gwella. • Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion iechyd a diogelwch.	• Gwybodaeth ehangach am ddeunyddiau, arferion a dulliau peirianneg sifil a threfol. • Gwybodaeth am y Fanyleb ar gyfer Gwaith Priffyrdd.
Profiad	• Meddu ar brofiad fel Arolygydd Priffyrdd, Arolygydd Safle neu weithio mewn maes cysylltiedig.	• Meddu ar brofiad o archwilio strwythurau priffyrdd, ffensys diogelwch, rhwystrau, ac ati.
Addasrwydd a Sgiliau	• Gallu deall a sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau, dogfennaeth contract a gofynion iechyd a diogelwch. • Gallu cynnal a chofnodi arolygon mesuredig o briffyrdd ac elfennau eraill sy'n gysylltiedig ag adeiladu. • Gallu gweithio gydag eraill (o fewn y gwasanaeth a'r tu allan iddo) i wella darpariaeth gwasanaethau lleol. • Gallu cadw cofnodion cynhwysfawr, cywir a darllenadwy o archwiliadau a phrofion gan ddefnyddio datrysiadau digidol • Gallu cofnodi bod y gwaith yn cydymffurfio â gofynion contract mewn perthynas â chynnydd a manyleb.	• Gallu defnyddio technoleg fodern ar gyfer cofnodi a chyfathrebu cofnodion safle.

YMDDYGIAD DISGWYLIEDIG A GWERTHOEDD

Annog a chefnogi eraill fel rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i eraill. Tyfu perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Rhannu arfer gorau a chyfrannu at ddatblygu arferion. Cynnal agwedd realistig a chadarnhaol tuag at newid.

Cyfathrebu'n agored, gan siarad yn syml gyda phobl i ennyn ymddiriedaeth a hyder.

Defnyddio menter i ddilyn gweithdrefnau i wneud penderfyniadau priodol. Rhowch adborth lle gellir gwella'r rhain.

Myfyrio'n onest ar fy arddull bersonol a'i effaith ar eraill a datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal	
Cyfle Cyfartal	Byddwch yn deall ac yn dangos parodrwydd i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Gofynion o Ran y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cefnogi staff wrth ddarparu hyn. Rhaid asesu pob swydd mewn perthynas â gofynion yr Iaith Gymraeg a bydd naill ai'n Gymraeg Hanfodol neu'n Ddymunol.

Gofynion Cymraeg ar gyfer y swydd hon (Gweler Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Dymunol			
Sgiliau Gwrando / Siarad	3	Sgiliau Ysgrifennu	3	Sgiliau Darllen / Deall	3

Amodau Arbennig	
Datgeliad Manwl Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Ddim yn Berthnasol
Yn Gyfyngedig yn Wleidyddol	Ddim yn Berthnasol
Arall (gan gynnwys anghenion corfforol ac amodau gweithio)	Bod yn barod i weithio'n hyblyg mewn perthynas â gofynion y swydd. Bydd hyn yn cynnwys gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol. Yn abl ac yn barod i weithio yn yr awyr agored, waeth beth yw'r tywydd. Meddu ar drwydded yrru gyfredol, lawn, y DU. Gallu ymgymryd ag ymweliadau safle o fewn Ffin y Ddinas.

Hyfforddiant

Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma.